

2014 Rhif 2018 (Cy. 203)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55, yr A494 a'r A550 (Cyfnewidfa Northop i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014

Gwnaed 28 Gorffennaf 2014

Yn dod i rym 4 Awst 2014

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer – Bangor (yr A55), a Chefnffordd Dolgellau – Man i'r De o Benbedw (yr A494 a'r A550) (y cyfeirir atynt yma wedi hyn fel “y cefnffyrdd”), wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig a chyfyngu arno ar ddarnau penodedig o'r cefnffyrdd oherwydd gwaith y bwrwdeir ei wneud arnynt neu'n agos atynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1) a phob pŵer galluogi arall(2), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Enwi, Dehongli a Chychwyn

1. Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 4 Awst 2014. Ei enw yw Gorchymyn Cefnffyrdd yr A55, yr A494 a'r A550 (Cyfnewidfa Northop i Ffin Cymru/Lloegr, Sir y Fflint) (Gwaharddiadau a Chyfyngiadau Traffig Dros Dro) 2014.

2. (1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr “cerbyd esempt” (“*exempted vehicle*”) yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys ac mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw'r cyfnod hwnnw sy'n dechrau am 00:01 o'r gloch ar 4

Awst 2014 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr "y darnau o'r cefnffyrdd" ("*the lengths of the trunk roads*") yw'r darnau o Gefnffyrdd yr A55, yr A494 a'r A550 a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu'r Atodlen sy'n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

Gwaharddiadau a Chyfyngiadau

3. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

4. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal, na pheri i unrhyw feic o'r fath gael ei reidio ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

5. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o'r cefnffyrdd a bennir yn Atodlen 1.

6. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 30 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

7. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 3.

8. Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 9, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 50 milltir yr awr ar y darnau o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 4.

Cymhwys

9. Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6, 7 ac 8 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i'r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiadau a'r cyfyngiadau y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

Cyfnod Para'r Gorchymyn hwn

10. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 12 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 28 Gorffennaf 2014

R MORGAN

Pennaeth Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

- (1) 1984 p.27: amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.
- (2) Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1 a pharagraff 30 o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006, mae'r pwrerau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

ATODLEN 1

Gwahardd Dros Dro Gerbydau, Beicwyr a Cherddwyr

- i) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr wrth Gyffordd 36a, Brychdyn i gyfeiriad y gorllewin hyd at ganolbwynt Cyffordd 33, Cyfnewidfa Northop gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.
- ii) Y darn hwnnw o Gefnffordd yr A550/A494 sy'n ymestyn o ffin Cymru/Lloegr hyd at y man lle y mae'n uno â Cefnffordd yr A55 ac yn gwyro oddi arni wrth Gyffordd 34, Cyfnewidfa Ewlo, gan gynnwys pob ffordd ymuno ac ymadael.
- iii) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 35, Cyfnewidfa Dobshell.
- iv) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r gorllewin Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

ATODLEN 2

Terfyn Cyflymder 30 MYA Dros Dro

- i) Y darn hwnnw o ddolen allanol glocwedd Cefnffordd yr A55/A494 wrth Gyffordd 34, Cyfnewidfa Ewlo sy'n ymestyn o drwyniad tua'r gorllewin yr A55 yn y man lle y mae'r ffordd ymadael yn gwyro tuag at Gonwy am bellter o 555 o fetrau o amgylch y ddolen.

ii) Y darn hwnnw o ddolen fewnol gwrthglocwedd Cefnffordd yr A55/A494 wrth Gyffordd 34, Cyfnewidfa Ewlo sy'n ymestyn o'r man lle y mae'n gwyro oddi ar Gefnffordd yr A55 am bellter o 422 o fetrau o amgylch y ddolen.

ATODLEN 3

Terfyn Cyflymder 40 MYA Dros Dro

i) Y darn hwnnw o gerbyttffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A55/A494 sy'n ymestyn o ynys hollti ganolog Cefnffordd yr A55 wrth Gyffordd 33a, Cyfnewidfa Brookside hyd at y trwyniad ar ddiwedd ffordd ymuno tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

ii) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494, Alltami.

iii) Y darn cyfan o ffordd ymadael tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

ATODLEN 4

Terfyn Cyflymder 50 MYA Dros Dro

i) Y darn hwnnw o gerbyttffordd tua'r dwyrain Cefnffordd yr A55/A494 sy'n ymestyn o ynys hollti ganolog yr orsaf wasanaethau tua'r dwyrain wrth Gyfnewidfa Ewlo hyd at yr arwyddion terfyn cyflymder 50 MYA ar ben yr A494, Cyfnewidfa Parc Dewi Sant.

ii) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494, Alltami.

iii) Y darn cyfan o ffordd ymuno tua'r dwyrain Cefnffordd yr A494 wrth Gyfnewidfa Parc Dewi Sant.

iv) Y darn hwnnw o gerbyttffordd tua'r gorllewin Cefnffordd yr A55 sy'n ymestyn o ganolbwynt Pont Woodlane hyd at y trwyniad tua'r gorllewin yn y man lle y mae Cefnffordd yr A55 yn gwyro o Gyffordd 34, dolen glocwedd Ewlo.